Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
90/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
03/10/2023

# Effeithiau newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendrau ysgolion amgen: ymchwil ansoddol ac adolygiad diwygiedig o dystiolaeth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-083-6

Teitl: Effeithiau newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendrau ysgolion amgen: ymchwil ansoddol ac adolygiad diwygiedig o dystiolaeth

Awdur: Aimee Cummings, Prifysgol Caerdydd, ar un o interniaethau Rhaglen Hyfforddiant Doethurol Cymru (ESRC) gyda Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Cummings, A. 2023. *Effeithiau newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendrau ysgolion amgen: ymchwil ansoddol ac adolygiad diwygiedig o dystiolaeth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 90/2023
Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/effaith-newidiadau-ir-flwyddyn-ysgol-chalendrau-ysgol-amgen-ymchwil-feintiol-ac-adolygiad-wedii-ddiweddaru-or-dystiolaeth-cyhoeddiad

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Rhestr tablau ........................................ 2
Rhestr ffigurau ........................................ 3
Rhestr termau ........................................ 4
1. Canfyddiadau allweddol ........................................ 5
2. Cyflwyniad ........................................ 6
Cwestiynau Ymchwil ........................................ 7
3. Methodoleg ........................................ 8
Asesiad cyflym o'r dystiolaeth ........................................ 8
Cyfweliadau â rhanddeiliaid ........................................ 10
4. Canfyddiadau ........................................ 133
Asesiad cyflym o'r dystiolaeth ........................................ 133
Cyfweliadau â rhanddeiliaid ........................................ 15
5. Cyfyngiadau ........................................ 21
6. Casgliadau ........................................ 22
Cyfeiriadau ........................................ 24
Atodiad A: Termau chwilio allweddol ........................................ 25
Atodiad B: Cronfeydd data a llenyddiaeth lwyd a chwiliwyd ........................................ 28
Atodiad C: Canllaw cyfweld ........................................ 29

**Rhestr tablau**

Tabl 1: Themâu ac is-themâu a ddeilliodd o'r dadansoddiad thematig. ............................... 16

**Rhestr ffigurau**

Ffigwr 1: Diagram llif o broses sgrinio'r adolygiad o lenyddiaeth……….…......10

**Rhestr termau**

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| KAS | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi |
| REA | Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth |

# 1. Canfyddiadau allweddol

1.1 Mae tystiolaeth sy'n destun pryder y gall y calendr ysgol cyfredol gael effaith andwyol ar bresenoldeb myfyrwyr ac arwain at golli'r hyn a ddysgwyd yn y byrdymor. Teimlai'r cyfweleion fod ymestyn gwyliau hanner tymor yr hydref a byrhau gwyliau'r haf yn lliniaru'r effeithiau negyddol hyn i ryw raddau.

1.2 Mae rhywfaint o dystiolaeth o'r farn y gallai gwyliau hir yr haf gyfrannu at ehangu'r bwlch anfantais, gyda rhai teuluoedd ei chael hi'n anodd ymdopi â gofal plant.

1.3 Teimlai'r cyfweleion fod gwyliau hanner tymor hirach ym mis Hydref yn cyfrannu at lesiant staff a myfyrwyr mewn ffordd gadarnhaol.

1.4 O ran yr awdurdodau lleol yn Lloegr a'r Alban a oedd wedi gwneud newidiadau i'r calendr ysgol, roedd llawer o'r newidiadau hyn yn gyson ag awdurdodau cyfagos.

1.5 Nodwyd rhywfaint o dystiolaeth o bwysigrwydd darpariaeth yn ystod y gwyliau er mwyn lliniaru'r dysgu a gollwyd. Fodd bynnag, nid dyma oedd prif ffocws yr astudiaeth, a nodir bod angen ystyried darpariaeth o'r fath, a'i heffaith, ymhellach.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Nod y darn hwn o ymchwil oedd cefnogi ‘Rhaglen Lywodraethu’ barhaus Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022) ac ymrwymiadau'r Cytundeb Cydweithio (2021) i ystyried diwygiadau i'r calendr ysgol er mwyn sicrhau ei fod yn fwy cyson â phatrymau bywyd teuluol a chyflogaeth modern. Mae'r maes gwaith hwn yn rhan o ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg a sicrhau y caiff anghydraddoldebau addysgol eu lleihau a safonau eu codi.

2.2 Yng Nghymru, mae'r flwyddyn ysgol gyfredol wedi'i rhannu'n dri thymor; tymor yr hydref o fis Medi i fis Rhagfyr, tymor y Gwanwyn o fis Ionawr i fis Mawrth/Ebrill, a thymor yr haf o fis Ebrill i fis Gorffennaf. Mae'r flwyddyn ysgol wedi'i rhannu'n anghyfartal, gyda thymor yr hydref yn hwy na thymhorau'r gwanwyn a'r haf. Rhaid i ysgolion ddarparu 380 o sesiynau (neu 190 o ddiwrnodau) o ddysgu y flwyddyn (Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003, rheoliad 4), gyda 13 wythnos o wyliau y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae pob tymor yn cynnwys wythnos o wyliau hanner tymor, a cheir pythefnos o wyliau dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, pythefnos o wyliau dros y Pasg, a chwe wythnos o wyliau dros yr haf. Gan fod gwyliau'r Pasg yn cael eu cynllunio yn ôl dyddiad Sul y Pasg bob blwyddyn, gall hyd tymhorau'r gwanwyn a'r haf amrywio.

2.3 Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru ddarn o ymchwil ar agweddau at ddiwygio'r flwyddyn ysgol yng Nghymru fel rhan o waith datblygu polisi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach. Dangosodd ymatebion i arolwg ar-lein fod cyfranogwyr yn 'eithaf' bodlon ar strwythur cyfredol y flwyddyn ysgol, ond dangosodd ymatebion ansoddol fod llawer o ymatebwyr yn agored i ystyried modelau amgen. At hynny, nodwyd hefyd y gallai tymhorau amrywiol neu hwy gael effaith negyddol ar ddysgwyr a staff (gan achosi blinder, lludded a cholli momentwm) (Beaufort Research, 2022).

2.4 Gwnaed y darn presennol o waith gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) fel rhan o interniaeth PhD, a'i nod oedd diweddaru darn o ymchwil a gyhoeddwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru. Yn 2021, cynhaliwyd Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth er mwyn adolygu tystiolaeth yn ymwneud â newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendrau amgen (Hughes, 2022). Adolygwyd tystiolaeth a

gyhoeddwyd yn ystod y deng mlynedd diwethaf ac, yn gryno, cafwyd ei bod bron yn amhosibl ateb nifer o'r cwestiynau ymchwil oherwydd prinder astudiaethau cyhoeddedig a diffyg canfyddiadau cyson. Felly, gwnaed argymhellion i gynnwys casglu a gwerthuso tystiolaeth o ansawdd uchel mewn rhaglenni arfaethedig i newid y calendr ysgol yng Nghymru yn y dyfodol.

**Cwestiynau Ymchwil**

2.5 Roedd rhesymeg ddeublyg dros y llinyn gwaith presennol. Yn gyntaf, roedd yn ceisio ategu'r adroddiad blaenorol drwy roi diweddariad ar y llenyddiaeth a gyhoeddwyd ers i'r gwaith gael ei wneud. Yn ail, roedd yn anelu at gynnwys agwedd gwaith maes ansoddol er mwyn rhoi cyd-destun DU-benodol i'r cwestiynau ymchwil. Gofynnwyd y cwestiynau ymchwil canlynol yn y ddau linyn:

1. Sut mae'r flwyddyn ysgol gyfredol yn effeithio ar ddysgwyr ac a oes gwahaniaethau rhwng grwpiau penodol?
2. A yw'r calendr ysgol cyfredol yn ehangu'r bwlch anfantais?
3. A yw myfyrwyr yn colli momentwm i ddysgu dros wyliau'r ysgol?
4. Ledled y DU, i ba raddau y mae ysgolion a gynhelir wedi newid i bythefnos o wyliau yn nhymor yr hydref?
5. O ran ysgolion a gynhelir sydd wedi newid i bythefnos o wyliau yn nhymor yr hydref, a yw'r gwyliau eraill wedi cael eu byrhau i ddarparu ar gyfer y newid hwn.
6. Sut mae/Sut y gall y calendr ysgol wneud y canlynol:
    a. Lliniaru effeithiau anfantais?
    b. Gwella cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr?
    c. Cynorthwyo llesiant dysgwyr a'r gweithlu?
    d. Sicrhau mwy o gysondeb â bywyd modern?

Roedd ffocws eilaidd hefyd:

1. Pa ddarpariaeth yn ystod y gwyliau sydd ar gael i bobl ifanc, gan gynnwys darpariaeth sy'n addas i ddysgwyr anabl?
2. Sut y gallai newidiadau i'r flwyddyn ysgol effeithio ar gludiant i'r ysgol?

## 3. Methodoleg

3.1 Defnyddiwyd dau ddull ymchwil gwahanol i ateb y cwestiynau ymchwil: adolygiad cyflym o'r dystiolaeth, a chyfres o gyfweliadau â rhanddeiliaid addysg mewn awdurdodau lleol yn Lloegr a'r Alban.

**Asesiad cyflym o'r dystiolaeth**

3.2 Math o synthesis tystiolaeth yw asesiadau cyflym o'r dystiolaeth. Maent yn fwy strwythuredig nag adolygiad o lenyddiaeth ond nid ydynt mor gynhwysfawr ag adolygiad systematig.

3.3 Gwasanaeth Llyfrgell Llywodraeth Cymru a gynhaliodd y chwiliad am lenyddiaeth ar gyfer yr adolygiad hwn. Diben yr adolygiad hwn oedd diweddaru canlyniadau gwaith ymchwil blaenorol (Hughes, 2022) ac, felly, defnyddiodd nifer o'r un termau chwilio allweddol yn ymwneud â chalendrau amgen a newidiadau i'r calendr ysgol. Fodd bynnag, gan ei fod yn cynnwys meysydd ymchwil newydd (fel y rheini sy'n ymwneud â lliniaru anfantais), ychwanegwyd rhagor o dermau chwilio. Ceir rhestr o dermau chwilio allweddol a chronfeydd data a chwiliwyd yn Atodiadau A a B.

3.4 Y bwriad oedd i'r adolygiad hwn ddiweddaru'r asesiad cyflym o'r dystiolaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol, a hefyd ehangu rhai o'r cwestiynau ymchwil gwreiddiol. Felly, yn ôl y meini prawf cynnwys, roedd yn rhaid i ddyddiadau cyhoeddi fodloni un o'r amodau canlynol, neu'r ddau ohonynt:

- cyhoeddwyd yr astudiaeth ar ôl mis Mehefin 2021.
- wrth edrych ar gwestiynau nad oeddent yn rhan o'r chwiliad gwreiddiol, roedd yn rhaid bod yr astudiaeth wedi'i chyhoeddi o 2013 ymlaen.

3.5 Cynhaliwyd chwiliadau rhwng 26 Ionawr a 20 Chwefror 2023. Cafodd astudiaethau eu cynnwys os oeddent wedi'u cyhoeddi yn Gymraeg neu Saesneg. Roedd y canlyniadau'n cynnwys erthyglau mewn cyfnodolion, adroddiadau llywodraeth a llenyddiaeth lwyd. Cafwyd cyfanswm o 59 o ganlyniadau i'r chwiliad. O blith y rhain, dim ond tri a gyhoeddwyd cyn 2021.


3.6 Mae Ffigwr 1 yn dangos proses yr adolygiad hwn. Oherwydd natur gyflym yr adolygiad hwn, ni ddefnyddiwyd dull cynhwysfawr o reoli cyfeiriadau. O ganlyniad,

cyfanswm bras yw nifer yr erthyglau y daethpwyd o hyd iddynt drwy'r chwiliad o gronfeydd data a llenyddiaeth lwyd (cam un ffigwr 1) yn hytrach nag union ffigur. Y rheswm dros hyn yw na chafodd canlyniadau dyblyg a ddaeth i'r amlwg drwy'r chwiliad eu cofnodi, nac ychwaith safleoedd a gafodd eu pori'n ysgafn yn hytrach na'u chwilio'n systematig.

3.7 Bu canlyniadau'r chwiliad yn destun proses sgrinio dau gam. I ddechrau, cafodd yr holl astudiaethau a ddaeth i'r amlwg drwy'r chwiliad eu sgrinio yn ôl eu teitl a'u crynodeb am eu perthnasedd i'r cwestiynau ymchwil gan aelod o dîm y llyfrgell. Yna, pennwyd lefel blaenoriaeth un, dau neu dri i'r astudiaethau. Yn gryno, roedd astudiaethau y pennwyd lefel blaenoriaeth un iddynt (n=16) yn seiliedig ar ddata a gasglwyd o fwy nag un lleoliad, neu'n erthyglau adolygu. Roedd astudiaethau y rhoddwyd lefel blaenoriaeth dau iddynt (n=27) yn cynrychioli detholiad ehangach o gyfeiriadau, yn cynnwys astudiaethau achos neu erthyglau o gyhoeddiadau proffesiynol yn bennaf. Yn olaf, ystyriwyd bod astudiaethau y pennwyd lefel blaenoriaeth tri iddynt (n=16) yn fwy ymylol i'r cwestiynau ymchwil neu'n ymwneud â rhai agweddau ar y pynciau ymchwil yn unig.

3.8 Yn ystod ail gam y broses sgrinio, cafodd cyfeiriadau eu sgrinio gan ail ddarllenydd gan ddefnyddio'r teitlau a'r crynodebau er mwyn pennu a ddylid eu cynnwys neu eu hepgor. Yn olaf, darllenwyd y papurau yn llawn er mwyn cadarnhau a ddylid eu cynnwys. Cafodd cyfeiriadau eu hepgor am nifer o resymau, er enghraifft am nad oeddent yn cofnodi ymchwil wreiddiol fel postiadau blog neu adolygiadau o ymchwil). Gan amlaf, hepgorwyd papurau am nad oeddent yn uniongyrchol berthnasol i'r cwestiynau ymchwil (er enghraifft hyd y diwrnod ysgol, rhaglen ar ôl ysgol, neu fentrau addysg yn y cartref), neu am eu bod y tu hwnt i gylch gorchwyl yr ymchwil (ysgolion haf a gynhaliwyd gan sefydliadau sector preifat yn hytrach na chynlluniau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol). Nodwyd cyfanswm o dair astudiaeth i'w cynnwys i'w dadansoddi.

**Ffigwr 1:** Diagram llif o broses sgrinio'r adolygiad o lenyddiaeth




**Cyfweliadau â rhanddeiliaid**

3.9 Cynhaliwyd cyfweliadau rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023, a chynhaliwyd cyfanswm o naw cyfweliad â rhanddeiliaid o ddau awdurdod lleol yn Lloegr a saith awdurdod lleol yn yr Alban. Roedd y cyfweleion yn rhanddeiliaid yr oedd eu swyddi yn yr awdurdod lleol yn golygu eu bod yn ymwneud mewn rhyw ffordd â'r broses o

gynllunio addysg ar lefel reoli uwch. Cafodd cyfanswm o 12 gweithiwr proffesiynol eu cyfweld.

3.10 Y sampl o ddiddordeb oedd rhanddeiliaid addysg a oedd yn gweithio mewn awdurdodau lle roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r calendr ysgol. Oherwydd natur gyflym y darn hwn o waith, ni fu modd inni archwilio faint yn union o awdurdodau lleol ledled y DU sydd wedi gwneud newidiadau i strwythur eu calendr ysgol. O ganlyniad, ni wyddom pa ganran o'r boblogaeth darged y mae'r sampl hwn yn ei chynrychioli.

3.11 Yn y rhan fwyaf o achosion, defnyddiwyd dull samplu bwriadus, gan recriwtio darpar gyfweleion drwy'r rhwydweithiau proffesiynol o gydweithwyr Llywodraeth Cymru a oedd â chysylltiadau mewn sefydliadau eraill. I ddechrau, anfonwyd e-bost rhagarweiniol at ddarpar gyfranogwyr yn rhoi gwybodaeth am Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r nod o archwilio diwygiadau i ddyddiadau tymhorau'r ysgol, ac yn gofyn a fyddent yn cymryd rhan mewn cyfweliad ar y pwnc.

3.12 Os oeddent yn cytuno, cyn i'r cyfweliadau gael eu cynnal, anfonwyd hysbysiad preifatrwydd at gyfranogwyr yn esbonio sut y byddai'r data yn cael eu storio, diogelwch, cyfrinachedd a'r broses anonymeiddio. Cynhaliwyd y cyfweliadau drwy Microsoft Teams ac, ar ddechrau pob cyfweliad, gofynnwyd i gyfranogwyr gydsynio ar lafar i gymryd rhan yn y cyfweliad ac i gael eu recordio.

3.13 Ar ôl pob cyfweliad, cafodd y canllaw cyfweld ei adolygu a'i addasu yn ôl yr angen, gan gynnwys llinellau ymholi ychwanegol neu addasu cwestiynau i'w gwneud yn fwy eglur. Mae copi o'r canllaw cyfweld terfynol wedi'i gynnwys yn Atodiad B.

3.14 Gwnaeth y cyfweliadau bara rhwng 17 a 33 munud, gyda phob un yn para 22 munud ar gyfartaledd. Cafodd gwerth 199 o funudau o gyfweliadau eu recordio, eu trawsgrifio a'u hanonymeiddio gan yr ymchwilydd. I ddechrau, cafodd y cyfweliadau eu trawsgrifio gan ddefnyddio swyddogaeth drawsgrifio awtomatig, a chawsant eu darllen wedyn am yr eildro i'w gwirio am unrhyw wallau.

3.15 Roedd y dadansoddiad o gyfweliadau yn dilyn dull Braun a Clarke (2006) o gynnal dadansoddiad thematig yn fras. Yn gryno, defnyddir dadansoddiad thematig fel dull o nodi, dadansoddi a chofnodi patrymau (themâu) o fewn data (Braun a Clarke,

2006, t.79) ac mae'n cynnwys chwe cham,  sef: ymgyfarwyddo â'r data, cynhyrchu codau cychwynnol, chwilio am themâu, adolygu themâu, diffinio themâu, a llunio adroddiadau.

## Canfyddiadau

### Asesiad cyflym o'r dystiolaeth

3.16 Cafodd cyfanswm o dri phapur eu cynnwys yn yr adolygiad hwn. Nid oedd yn syndod, o ystyried y cyfnod cyfyngedig yr oedd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio arno, mai ychydig iawn o bapurau a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r cwestiynau ymchwil a gyhoeddwyd ers i'r pwnc hwn gael ei archwilio ddiwethaf. O ganlyniad, ni fu modd cynnal dadansoddiad sylweddol o'r papurau a oedd wedi'u cynnwys. Yn hytrach, mae'r dystiolaeth wedi'i thynnu o ganfyddiadau nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r pwnc dan sylw.

3.17 Roedd yr holl dystiolaeth yn ymwneud mewn rhyw ffordd â darpariaeth yn ystod y gwyliau, gyda phwyslais ar wyliau'r haf. Yn yr achos hwn, canolbwyntiwyd ar ddarpariaeth a gynigiwyd gan yr ysgol ei hun neu gan yr awdurdod lleol (neu leoliad cyfatebol), yn hytrach na grwpiau preifat fel gwersylloedd haf.

*Lliniaru anfantais*

3.18 Ymchwiliodd y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant a Parentkind (2022) i safbwyntiau rhieni a gofalwyr ar hyd y flwyddyn ysgol yng Nghymru a'r hyn yr hoffent ei weld yn cael ei gynnig yn y dyfodol. Ymatebodd 6,843 o rieni a gofalwyr i'r arolwg ar-lein, yr oedd plentyn ieuengaf y mwyafrif ohonynt (n= 5,350) yn yr ysgol gynradd. O blith y sampl hwn, roedd 24.5 y cant yn cael budd-daliadau prawf modd neu wrthi'n gwneud cais amdanynt, ac wedi'u dosbarthu'n deuluoedd incwm isel yn y dadansoddiad.

3.19 Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr (56 y cant) yn cefnogi blwyddyn wedi'i rhannu'n fwy cyfartal ac, wrth edrych yn benodol ar deuluoedd incwm isel, roedd y ffigwr hwn yn cynyddu i 59 y cant. Pan ofynnwyd pam roeddent yn cefnogi blwyddyn ysgol fwy cyfartal, nododd rhieni a gofalwyr resymau fel lleihau'r angen am ofal seibiant, sicrhau bod anghenion cymorth parhaus yn cael eu diwallu, a chynnal trefn arferol i blant.

3.20 Roedd teuluoedd a ddywedodd eu bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi dros wyliau'r haf (o ran costau neu ofal plant) yn fwy tebygol hefyd o fod o blaid gwyliau byrrach dros yr haf (72 y cant) o gymharu â'r 29 y cant o deuluoedd na wnaethant nodi

materion o'r fath. At hynny, roedd teuluoedd ar incwm isel hefyd o blaid y cyfle i gael gofal plant am ddim dros gyfnod yr haf. Wrth drafod y ddarpariaeth i blant ag anghenion ychwanegol, dywedodd un ymatebydd fod prinder gofal plant difrifol i blant ag anghenion uwch (t.6).

3.21 Defnyddiodd astudiaeth arall, a gynhaliwyd gan Kreamer et al., (2022), ddulliau ansoddol o ddeall canfyddiadau athrawon o gyfranogiad myfyrwyr mewn gwersyll ysgrifennu haf rhithwir. Gweithiodd staff gydag ysgolion uwchradd ag anghenion uwch (a gaiff eu diffinio fel ysgolion Teitl 1 lle mae pob myfyriwr yn cael cinio am ddim neu am bris gostyngol) a oedd â phartneriaeth barhaus â rhaglen mynediad i golegau ffederal (*Gaining Early Awareness and Readiness for Undergraduate Programs* (GEAR UP)). Nod yr ymchwil oedd dangos ffyrdd y gall ysgolion a sefydliadau gefnogi anghenion cymdeithasol ac emosiynol myfyrwyr risg uchel. Cymerodd naw athro a thri hwylusydd prosiect ran yn yr ymchwil.

3.22 Er nad oedd y darn hwn o ymchwil yn uniongyrchol berthnasol i''r cwestiynau ymchwil a ofynnwyd, siaradodd un o'r hwyluswyr a gafodd ei gyfweld am ei bryderon cychwynnol ynghylch cyfranogiad myfyrwyr. Roeddent yn synnu bod dull rhithwir yn cynnig cyfleoedd gan nad oedd angen i fyfyrwyr boeni am gludiant na chyflawni eu cyfrifoldebau eraill yn eu cartref.

*Llesiant myfyrwyr a cholli cyfleodd i ddysgu*

3.23 Cyhoeddodd yr Adran Addysg (2022) ganfyddiadau darn o waith a wnaed gan CooperGibson Research lle y darparwyd cyllid i ysgolion uwchradd yn Lloegr greu ysgolion haf wyneb yn wyneb yn ystod gwyliau haf 2021. Y nod oedd ceisio lliniaru'r dysgu a gollwyd yn ystod pandemig COVID-19. Gofynnwyd i fyfyrwyr gwblhau arolygon ar-lein cyn (n= 5,536) ac ar ôl (n= 6,437) mynychu'r ysgol haf. Roedd y mwyafrif o'r sampl yn cynnwys disgyblion a oedd yn pontio i flwyddyn saith (cyn = 88.0 y cant, ar ôl = 89.5 y cant), ond roedd hefyd yn cynnwys disgyblion mewn grwpiau blwyddyn eraill. Casglwyd arolygon ysgolion hefyd, a gwblhawyd gan uwch-arweinwyr ysgolion (n= 440 o ysgolion).

3.24 Ar gyfartaledd, darparodd ysgolion 6.6 diwrnod o ysgol haf. Pan ofynnwyd i'r myfyrwyr pa mor hyderus oeddent yn teimlo ynglŷn â dechrau'r flwyddyn academaidd newydd, cyn yr ysgol haf, dywedodd 18 y cant eu bod yn teimlo'n gwbl

hyderus. Cynyddodd y ffigur hwn i 23 y cant ar ôl iddynt fynychu'r ysgol haf. Wrth ymgysylltu â sefydliadau trydydd parti i gynnal gweithgareddau ysgol haf, teimlai 84 y cant ei bod hi'n hawdd (hawdd iawn neu eithaf hawdd) dod o hyd i'r sefydliadau cywir i weithio gyda nhw, a theimlai 91 y cant y gallent gytuno ar ba weithgareddau y dylid eu cynnal.

3.25 Dywedodd dros hanner yr ysgolion (53 y cant) eu bod yn teimlo bod yr ysgolion haf wedi bod yn 'effeithiol iawn' wrth wella llesiant disgyblion. Fodd bynnag, dim ond 11 y cant oedd yn teimlo bod yr ysgolion haf wedi bod yr un mor effeithiol wrth wella cyrhaeddiad academaidd.

**Cyfweliadau â rhanddeiliaid**

3.26 Cafodd y canfyddiadau eu dosbarthu'n dair thema gynradd, gydag is-themâu (Tabl 1). I grynhoi, roedd pob un o'r awdurdodau lleol wedi gwneud newidiadau i'w gwyliau hanner tymor ym mis Hydref drwy eu gwneud yn hwy, ac roedd y mwyafrif wedi newid i bythefnos o wyliau (n=8).

3.27 Roedd dau awdurdod lleol hefyd wedi newid o ddyddiadau amrywiol ar gyfer gwyliau'r Pasg i ddyddiadau sefydlog, gan dorri ar gyfer gwyliau'r Pasg yn ystod wythnos gyntaf mis Ebrill (mewn un achos, roedd y toriad hwn wedi'i ailenwi'n wyliau'r gwanwyn, yn hytrach na'i fod yn gysylltiedig â'r Pasg).

3.28 At hynny, yn ddiweddar roedd un awdurdod lleol wedi bod wrthi'n ceisio rhoi blwyddyn academaidd wedi'i rhannu'n fwy cyfartal ar waith. Er mai'r penderfyniad a wnaed yn dilyn ymgynghoriad ar y newidiadau hyn oedd peidio â newid y calendr, mae safbwyntiau'r cyfweleion ar y broses hon wedi'u cynnwys yn y themâu isod.

3.29 Er mwyn sicrhau bod strwythur y flwyddyn ysgol yn cynnal y nifer gofynnol o sesiynau dysgu bob blwyddyn, byddai calendrau ysgolion yn aml yn cael eu hailstrwythuro fel bod gwyliau'r haf yn dechrau'n hwyrach.

**Tabl 1:** Themâu ac is-themâu a ddeilliodd o'r dadansoddiad thematig.

| Thema | Is-themâu |
|---|---|
| 1. Rhesymau dros wneud newidiadau i'r flwyddyn ysgol | ➢ Cyd-destun yr awdurdod lleol<br>➢ Presenoldeb myfyrwyr<br>➢ Argaeledd teuluoedd i deithio<br>➢ Colli'r hyn a ddysgwyd<br>➢ Cysoni ag awdurdodau cyfagos<br>➢ Llesiant myfyrwyr a staff<br>➢ Anfantais |
| 2. Y broses ymgynghori | ➢ Hyd yr ymgynghoriad<br>➢ Dosbarthu deunyddiau<br>➢ Opsiynau<br>➢ Hysbysiad ymlaen llaw<br>➢ Ymateb |
| 3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid | ➢ Staff ysgol<br>➢ Undebau llafur<br>➢ Rhieni<br>➢ Pobl ifanc |

*Rhesymau dros wneud newidiadau i'r flwyddyn ysgol*

3.30 Wrth drafod y rhesymau dros wneud newidiadau i'r calendr ysgol, rhoddodd nifer o'r cyfweleion rywfaint o gyd-destun i'w hawdurdod lleol. Roedd hyn yn cynnwys lleoliad daearyddol, lefelau amddifadedd, a galwedigaethau trefol. Mewn rhai ardaloedd, roedd y newidiadau i'r calendr ysgol yn ddatblygiad eithaf diweddar, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mewn rhai eraill, roeddent wedi'u gwneud ers tro (hyd at 15 mlynedd), ac roedd eu gwreiddiau'n gysylltiedig ag arferion amaethyddol traddodiadol. Ym mhob achos ond un, bu modd gwneud newidiadau i'r flwyddyn ysgol o dan ddeddfwriaeth bresennol. Yn yr awdurdod lleol lle nad oedd hyn yn wir, bu'n rhaid i'r cyfwelai ysgrifennu i'w lywodraeth yn gofyn am i'r ddeddfwriaeth gael ei diwygio.

3.31 O ran yr awdurdodau lleol a oedd wedi gwneud newidiadau yn fwy diweddar, y rheswm a nodwyd yn aml oedd presenoldeb myfyrwyr.

> ‘Gwelson ni fod presenoldeb yn union cyn gwyliau mis Hydref yn eithaf isel, a'i fod yn is byth ar ôl inni ddychwelyd wedi'r gwyliau.’ (Cyfweliad 3)

3.32 Trafododd cyfweleion y ffaith bod llawer o deuluoedd yn gallu teithio a mynd ar wyliau (yn aml dramor) yn ystod hanner tymor mis Hydref. Nododd cyfweleion y gall fod yn rhatach i deuluoedd fynd ar wyliau yn ystod y cyfnod hwn yn aml, a'i fod yn rhoi dewis arall i deuluoedd na allant fforddio mynd i ffwrdd yn ystod yr haf o bosibl. At hynny, i awdurdodau lleol ynys, mae'r gwyliau estynedig yn galluogi teuluoedd i deithio i ardaloedd tir mawr heb fod yr amser teithio yn tarfu ar eu hamser gwyliau. Nododd pob un o'r cyfweleion a gyfeiriodd at bresenoldeb eu bod wedi gweld cynnydd amlwg ar ôl i'r newidiadau i'r gwyliau hanner tymor gael eu gwneud, gyda llai o deuluoedd yn cymryd gwyliau yn ystod y tymor.

3.33 Roedd colli'r hyn a ddysgwyd (neu wrthdroi cynnydd academaidd), yn enwedig yn ystod gwyliau hir yr haf, yn bryder a leisiwyd gan lawer o gyfweleion. Byddai myfyrwyr yn cael eu hailasesu ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd ac yn aml, byddai angen ailedrych ar elfennau o ddysgu a wnaed yn y flwyddyn flaenorol.

> ‘Rydyn ni'n ymwybodol bod cryn dipyn o ddata sy'n dangos bod plant yn colli llawer o'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu dros wyliau haf hir iawn.’ (Cyfweliad 2)

3.34 Nodwyd hefyd fod dychwelyd at ddysgu ac addysgu yn haws i fyfyrwyr pan oedd gwyliau'r haf wedi'u cwtogi rhywfaint.

3.35 Un o'r rhesymau a drafodwyd fwyaf dros wneud newidiadau i'r calendr ysgol oedd cysoni ag awdurdodau lleol cyfagos. Roedd cyfweleion yn ymwybodol o'r ffaith y gall fod gan rieni, mewn sawl achos, blant sy'n mynychu'r ysgol mewn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol. Roedd dyddiadau tymhorau anghyson yn bryder cyffredin i athrawon a rhieni am fod hyn nid yn unig yn effeithio ar allu teuluoedd i fynd â'u plant ar wyliau, ond hefyd yn achosi problemau o ran gofal plant. O ganlyniad, gweithiodd cyfweleion i sicrhau bod dyddiadau tymhorau eu hawdurdod

eu hunain yn gyson â rhai eu hawdurdodau cyfagos, drwy ymgynghori â nhw cyn i ddyddiadau'r tymhorau gael eu cyhoeddi.

3.36 Rheswm arall a nodwyd wrth drafod y posibilrwydd o ymestyn gwyliau hanner tymor yr hydref oedd hyd cyffredinol tymor yr hydref. Nodwyd y ffaith bod y tymor yn hir, y gaeaf a'r diwrnodau byrrach fel rhesymau dros lesiant is yn ystod y tymor hwnnw, ac roedd lludded ymhlith staff yn bryder i lawer. Nododd un o'r cyfweleion gynnydd mewn gwaharddiadau am gyfnod penodol ar yr adeg hon o'r flwyddyn, wrth i fyfyrwyr ac athrawon ei chael hi'n anodd 'ymdopi a phethau y gallent fod wedi ymdopi â nhw ynghynt.' (Cyfweliad 2).

3.37 At hynny, ystyriwyd llesiant dros wyliau'r haf hefyd. I deuluoedd a oedd mewn cysylltiad â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, teimlwyd bod gwyliau'r haf yn gyfnod hir ac y gallai'n aml gael effaith andwyol ar lesiant rhieni a phlant.

> 'I blant sy'n derbyn gofal, neu blant ag anghenion cymorth ychwanegol, neu blant agored i niwed sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, mae'r cyfnod hir o chwe wythnos yn eithaf sylweddol.' (Cyfweliad 6)

3.38 Er mwyn ceisio lliniaru'r anfantais hon, roedd rhai awdurdodau lleol wedi llwyddo i sicrhau cyllid i gynnal clybiau gwyliau, penodi gweithiwr cymdeithasol, a darparu prydau i fyfyrwyr y tu allan i'r tymor.

3.39 Cyfeiriwyd hefyd, er yn fyr, at gludiant. Dywedodd un o'r cyfweleion fod tîm cludiant yr awdurdod lleol wedi gofyn am i newidiadau i'r calendr beidio â disgyn yn ystod y cyfnod arholiadau. Cais i arbed costau oedd hwn, gan na fyddai angen cludo nifer cyfyngedig o fyfyrwyr.

*Y broses ymgynghori*

3.40 Gofynnwyd i gyfweleion roi manylion am y broses ymgynghori a ddefnyddiwyd wrth ystyried gwneud newidiadau i'r calendr ysgol. Yn gyffredinol, bu ymgynghoriadau ar agor am gyfnod o bedair i chwe wythnos, a chawsant eu hysbysebu drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys: cylchlythyrau ysgol/llywodraethwyr, gwefan yr awdurdod lleol, e-bost i bob ysgol yn yr ardal, sianeli cyfryngau cymdeithasol, sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb, darparwyr gwasanaethau ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gwybodaeth i awdurdodau lleol i'w rhannu o fewn eu

rhwydweithiau eu hunain. Arolygon ar-lein oedd y dull mwyaf poblogaidd o gasglu data. Fel rhan o'r ymgyngoriadau hyn, cyflwynodd rhanddeiliaid nifer o opsiynau (dau neu dri fel arfer) y gallai ymatebwyr wneud sylwadau yn eu cylch a nodi eu dewisiadau. Cyfeiriodd pob un o'r cyfweleion at y don ddiweddaraf o ymgyngoriadau, lle y gwnaethant geisio sylwadau ynghylch newidiadau a wnaed ac a ddylid cynnal y newidiadau hyn neu ddychwelyd at y drefn flaenorol. Er enghraifft, er bod pythefnos o wyliau hanner tymor ar waith ym mis Hydref, byddai rhai awdurdodau lleol yn cyflwyno opsiwn ymgynghori o ddychwelyd at wythnos o wyliau, er mwyn mesur diddordeb y cyhoedd.

3.41 O ran pennu dyddiadau tymhorau, nododd pob un o'r cyfweleion fod y dyddiadau hyn fel arfer yn cael eu pennu rhwng dwy flynedd a phedair blynedd cyn y flwyddyn academaidd nesaf.

> 'Mae'n bwysig iawn bod hynny'n cael ei wneud ymhell ymlaen llaw. Os byddwn i'n ei awgrymu i lywodraeth newydd, byddwn i'n dweud wrthi am beidio â'i wneud ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd teuluoedd wedi trefnu gwyliau. Mae'n rhaid ichi ei wneud ar gyfer y tymor hwy, ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.' (Cyfweliad 5)

3.42 O ran ymatebion i'r ymgyngoriadau cyhoeddus, roedd lefelau ymgysylltu yn amrywio. Er i un awdurdod lleol nodi ei fod wedi cael nifer digynsail o ymatebion i'w ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r calendr ysgol, cyfradd ymateb isel a nodwyd gan eraill.

3.43 Hefyd, er bod canlyniadau'r ymgyngoriadau yn dangos bod ymatebwyr o blaid y newidiadau arfaethedig, nodwyd pryderon gan rai. Rhannodd un awdurdod lleol yr ymatebion dienw i'w ymgynghoriad diweddaraf, a oedd yn dangos bod rhai o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio ag ymestyn gwyliau mis Hydref yn cynnwys problemau o ran trefniadau gofal plant, tywydd gwaeth, a'r effaith negyddol bosibl ar ddysgu myfyrwyr. Myfyriodd cyfweleion yn agored ar unrhyw sylwadau gwrthwynebol, a gweithiwyd i fynd i'r afael â'r rhain wrth wneud penderfyniad terfynol ynghylch dyddiadau tymhorau.

> 'Roedden ni'n onest am yr anfanteision, ond gwnaethon ni esbonio sut roedden ni wedi mynd i'r afael â nhw a'u lliniaru cymaint â phosibl er mwyn

gwneud yn siŵr, pan ddaeth hi'n amser i aelodau etholedig o'r cyngor bleidleisio, y cafodd y penderfyniad ei dderbyn.' (Cyfweliad 4)

*Ymgysylltu â rhanddeiliaid*

3.44 Siaradodd cyfweleion yn fyr am yr amrywiaeth eang o randdeiliaid yr aethant ati i ymgysylltu â nhw, cyn i unrhyw newidiadau i'r calendr ysgol gael eu rhoi ar waith. Teimlai llawer ei bod hi'n hollbwysig siarad ag athrawon ac undebau llafur er mwyn trafod y rhesymeg dros y newidiadau arfaethedig cyn i'r ymgynghoriad ffurfiol gael ei ryddhau. Yn y mwyafrif o achosion, mater i un o bwyllgorau'r awdurdod lleol oedd gwneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau i'r flwyddyn ysgol. Roedd y rhain bob amser yn cynnwys aelodau etholedig o'r cyngor a, rhwng awdurdodau lleol, gallai'r rhain hefyd gynnwys cynrychiolwyr o grwpiau llais ieuenctid, undebau llafur, undebau athrawon, ac eglwysi.

3.45 Cyfeiriodd un awdurdod lleol at waith a wnaed ganddo cyn dechrau'r broses ymgynghori, lle y gofynnwyd i randdeiliaid ystyried sut yr hoffent i'r calendr ysgol gael ei strwythuro.

> 'Gwnaethon ni gynnal ymarfer ymarferol hefyd, sut ydych chi am i'r 195 o ddiwrnodau (gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant mewn swydd) gael eu trefnu o fewn y flwyddyn academaidd?' (Cyfweliad 9)

*Sylwadau wrth gloi*

3.46 Yn gyffredinol, roedd pob un o'r cyfweleion o'r farn bod y newidiadau roedd eu hawdurdod lleol wedi'u gwneud i'r flwyddyn ysgol yn llwyddiant. Er eu bod yn cydnabod y gall gymryd amser i bobl ymaddasu i'r newidiadau, yn enwedig os ydynt yn wahanol i'r drefn sefydledig, caiff y newidiadau hyn eu croesawu yn y pen draw.

> 'Mae'n ymddangos bod pethau wedi setlo erbyn hyn. Mae'n debyg ei bod yn eithaf normal yn yr ardal ac nad yw'n peri cymaint o bryder.' (Cyfweliad 2)

# 4. Cyfyngiadau

4.1 Yn ôl y disgwyl, ychydig o astudiaethau a ddeilliodd o'r agwedd 'diweddaru' ar yr asesiad cyflym o'r dystiolaeth a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil hon. Nid oedd hyn yn syndod, o ystyried y cyfnod byr o amser dan sylw. Fodd bynnag, gan mai nifer bach o erthyglau a nodwyd, a'r ffaith mai dim ond un o'r rhain oedd yn uniongyrchol berthnasol i gwestiynau ymchwil yr astudiaeth bresennol, mae'n anodd mesur pwysau'r dystiolaeth ddeilliadol hon. Yn yr un modd, o ran y ddwy astudiaeth a gynhaliwyd y tu allan i Gymru, rhaid i'r canfyddiadau gael eu trin yn ofalus gan nad ydynt o bosibl wedi'u cyffredinoli i gyd-destun Cymru. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau ynghylch darpariaeth yn ystod y gwyliau yn ddiddorol. Er nad oedd hyn yn ffocws allweddol yn yr astudiaeth hon, efallai nad oedd y llenyddiaeth yn ddigon cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r math hwn o ddarpariaeth a'i heffaith. Felly, gallai fod yn fuddiol cynnal astudiaeth bellach yn ystyried dulliau gweithredu ac effaith darpariaeth yn ystod y gwyliau.

4.2 O ran y llinyn cyfweliadau o'r darn hwn o waith, mewn rhai achosion roedd newidiadau i'r flwyddyn ysgol wedi'u gwneud cyn i'r cyfwelai ymgymryd â'i swydd yn yr awdurdod lleol. Felly, gallai'r gallu i gofio'r ffeithiau ynglŷn â'r newidiadau fod wedi'i lesteirio. Mae potensial hefyd am ragfarn yn y dull samplu bwriadu a ddefnyddiwyd (Sharma, 2017). Gan mai nifer bach o gyfranogwyr oedd ar gael ac a gafodd eu recriwtio, roedd yn rhaid i'r dull samplu fod yn bragmataidd. O ganlyniad, cafodd pob un o'r ymatebwyr a gytunodd i gael eu cyfweld ac a oedd yn bodloni'r meini prawf eu cynnwys yn yr ymchwil.

## 5. Casgliadau

5.1 Nod y darn hwn o waith oedd mynd i'r afael ag atebion allweddol ynglŷn â'r flwyddyn ysgol gyfredol yng Nghymru, yn ogystal ag ymchwilio i ardaloedd o'r DU lle mae newidiadau wedi'u gwneud. Er nad yw'r holl gwestiynau ymchwil wedi'u hateb yn uniongyrchol, gellir dod i rai casgliadau ar sail y canfyddiadau.

5.2 Mae rhywfaint o dystiolaeth y gall patrwm y flwyddyn ysgol gyfredol effeithio ar bresenoldeb myfyrwyr ac arwain at golli'r hyn a ddysgwyd, fel y gwelwyd yn yr adolygiad o dystiolaeth a'r cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol. Er bod colli'r hyn a ddysgwyd dros wyliau'r haf yn bryder a nodwyd gan gyfweleion ac yn yr asesiad cyflym o'r dystiolaeth, teimlai rhanddeiliaid fod y gwyliau hanner tymor estynedig yn yr hydref, a chwtogi gwyliau'r haf yn sgil hynny, yn lliniaru hyn rywfaint.

5.3 Gall y flwyddyn ysgol gyfredol hefyd ehangu'r bwlch anfantais. Dangosodd yr adolygiad fod rhieni a gofalwyr o blaid rhannu'r flwyddyn ysgol yn fwy cyfartal am resymau megis lleihau'r angen am ofal seibiant. Yn y gwaith ansoddol, nododd cyfweleion nid yn unig fod cyfnodau hir o amser (fel gwyliau'r haf) yn destun pryder i deuluoedd a oedd mewn cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol plant, ond bod llawer o deuluoedd hefyd yn ei chael hi'n anodd talu am ofal plant neu wyliau yn ystod y cyfnod hwn.

5.4 Credwyd bod pythefnos o wyliau ym mis Hydref yn gwella llesiant myfyrwyr a staff, a gwelwyd hyn hefyd yn ystod y cyfweliadau.

5.5 O blith y naw awdurdod lleol a gyfwelwyd, roedd wyth wedi penderfynu y dylai ysgolion a gynhelir newid i bythefnos o wyliau yn nhymor yr hydref. Mae'n bwysig nodi hefyd, yn llawer o'r awdurdodau lleol hyn, fod y newid yn gyson ag awdurdodau cyfagos. Yn aml, byddai dyddiadau tymhorau arfaethedig yn cael eu trafod â'r awdurdodau cyfagos hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gyson cyn iddynt gael eu pennu. Nid arweiniodd y darn hwn o waith at restr gynhwysfawr o'r awdurdodau lleol ledled y DU sydd wedi newid i bythefnos o wyliau ar gyfer ysgolion a gynhelir.

5.6 Prin oedd y data yn ymwneud â darpariaeth yn ystod y gwyliau i bobl ifanc. Yn ystod y cyfweliadau, siaradodd rhai awdurdodau lleol am sicrhau cyllid i ddarparu

clybiau gwyliau a phrydau y tu allan i'r tymor. Trafodwyd darpariaeth yn ystod gwyliau'r haf yng nghanfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth hefyd. Fodd bynnag, nid oedd canfyddiadau'r llinyn hwn o waith yn gynhwysfawr, felly gall fod yn ddoeth cynnal astudiaeth bellach i ystyried y dulliau gweithredu ac effaith y ddarpariaeth hon.

5.7 Cyfeiriwyd at gludiant i'r ysgol yn fyr, ac mae hyn yn dangos y gallai newidiadau i'r flwyddyn ysgol effeithio ar y sector hwn.

**Cyfeiriadau**

Beaufort Research. (2022). Agweddau at ddiwygio'r flwyddyn ysgol yng Nghymru: Canfyddiadau ymchwil ac ymgysylltu. Llywodraeth Cymru.

Braun, V. a Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*, *3*(2), tt.77-101.

Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant a Parentkind. (2022). Parents and carers' views on reform of the school day and year in Wales.

CooperGibson Research. (2022). Summer schools research: Final research report. Yr Adran Addysg.

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru). (2003).

Hughes, S. (2022). Effeithiau newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendrau ysgolion amgen: adolygiad o'r dystiolaeth. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 05/2022.

Kreamer, H.M., Breaux, M. a Daspit, T. (2022). Teacher Perceptions of Supporting Students Placed at Risk Socially and Emotionally through a Virtual Writing Camp. *Journal of At-Risk Issues*, *24*(1), tt. 13-24.

Sharma, G. (2017). Pros and cons of different sampling techniques. *International Journal of Applied Research*, *3*(7), tt.749-752.

Llywodraeth Cymru. (2021). Y Cytundeb Cydweithio.

Llywodraeth Cymru. (2022). Diwygio'r flwyddyn ysgol.

**Atodiad A: Termau chwilio allweddol**

<u>Termau testun rhydd (Saesneg)</u>

school-year* (ERIC), school W1 year* (BEI), “school year”; school-day* (ERIC), school W1 day* (BEI), “school day”; school-term* (ERIC), school W1 term* (BEI), “school term”; structure; length; extend*; school; teach*; learn*; asymmetric; week*; timetable*; term*; day*; week*; schedule; day-school-week* (ERIC), "day school" W1 week* (BEI); balanced-school* (ERIC), balanced W1 school* (BEI); compressed-school* (ERIC), compressed W1 school* (BEI); year-round-school* (ERIC), “year round” W1 school* (BEI); "wrap around care"; out-of-school-activit* (ERIC), "out of school activities" (BEI); instruction; classroom; time; hours; extend*; additional; summer; program*; "after school"; afterschool; school*; schedule*; hours; language; immersion; bilingual; trilingual; multilingual; plurilingual; education; learning; classroom*; teaching; special; education*; "additional learning needs"; learning-disab*; learning-difficult*; "learning problems"; remedial; gifted; "compensatory ; ducation"; developmental; intellectual; cognitive; disab*; childcare; "child care"; working; childmind*; daycare; "day care"; child-care-provider*; before-school*; breakfast; homework; club; "looked after"; care; vulnerable; child*-in-need; "supported housing"; foster*; refugee*; asyl*; migrant*; immigrant*; displaced; emigrant; outmigrant*; gyps*; roma*; traveller*; GRT; gips*; sinti; rroma*; pavee*; kale*; kala*; valshanange*; efsm; free-school-meal*; poverty; free-school-lunch*; free-school-breakfast*; "free school food"; free-school-dinner*; "free school milk"; young; teen*; child; carer*; children; family; "under 18"; caregiv*; "as a second language"; "as a new language"; "second language learning"; "as an additional language"; "for speakers of other languages"; EAL; ESL; ENL; ESOL; WAL; WSL; WNL; WSOL; SSL; Working; Caregiver*; Extended; “school week”; Compressed; Extracurricular; School hours; “extra curricular”

<u>Thesaurus terms</u>

<u>ERIC</u>

"School Schedules"; "Year Round Schools"; "Summer Programs"; "Summer Schools"; "After School Programs"; "Schools"; "School Schedules"; "Second Language Learning"; "Second Language Programs"; "Bilingual Education"; "Multilingualism"; "Education"; "Learning";

"Classrooms"; "Instruction"; "Special Education"; "Learning Disabilities"; "Learning Problems"; "Remedial Instruction"; "Gifted"; "Compensatory Education"; "Developmental Disabilities"; "Intellectual Disability"; "Child Care"; "Employed Parents"; "Child Caregivers"; "Schools"; "Child Caregivers"; "Breakfast Programs"; "Child Care"; "Foster Care"; "Migrants"; "Poverty"; "Second Languages"

Mynegai Addysg Prydain

"SCHOOL schedules"; "BLOCK scheduling (Education)"; "FLEXIBLE scheduling in education"; "QUARTER system in education"; "SCHOOL lunch breaks"; "SCHOOL vacations"; "SCHOOL week"; "SCHOOL year"; "SEMESTER system in education"; "TRIMESTER system in education"; "SCHOOL day"; "CLASS periods"; "SCHOOL start times"; "YEAR-round schools"; "SUMMER schools"; "TEACHERS -- Out-of-school activities"; "SCHOOLS"; "AFRICAN American schools"; "ALTERNATIVE schools"; "BILINGUAL schools"; "BOARDING schools"; "BRITISH schools"; "CATHEDRAL schools"; "CHARITY-schools"; "CHARTER schools"; "COEDUCATIONAL schools"; "COMPUTER programming schools"; "COOPERATIVE schools"; "DAY schools"; "DISADVANTAGED schools"; "EFFECTIVE schools"; "ELEMENTARY schools"; "ETHNIC schools"; "EUROPEAN schools"; "FAILING schools"; "GRANT-maintained schools"; "GULEN movement schools"; "GYMNASIUMS (Educational institutions)"; "HOSPITAL schools"; "INSTITUTIONAL schools"; "INSTRUCTIONAL materials centers"; "INTERNATIONAL schools"; "IRISH Gaelic language schools"; "JEWISH religious schools"; "LABORATORY schools"; "LANGUAGE schools"; "MISSION schools"; "MOBILE schools"; "MONTESSORI schools"; "OPEN-air schools"; "PRIMARY schools"; "PRIVATE schools"; "PUBLIC schools"; "REFUGEE camp schools"; "RELIGIOUS schools"; "RURAL schools"; "SECONDARY schools"; "SINGLE sex schools"; "SMALL schools"; "SPECIAL education schools"; "SUBURBAN schools"; "TEXTILE schools"; "TRADITIONAL schools"; "URBAN schools"; "VACATION schools"; "VIRTUAL schools"; "VOCATIONAL schools"; "AFTER school programs"; "AFTER school sports"; "CHILD care"; "CAREGIVER-child relationships"; "CHILD rearing"; "SCHOOL-age child care"; "SCHOOL-based child care"; "CHILDREN of working parents"; "CHILDREN of working mothers"; "LATCHKEY children"; "DAY care centers"; "PLAY groups"; "PLAY schools"; "FOREIGN language education"; "AUDIOLINGUAL method (Language teaching)"; "COMMUNICATION in foreign language

education"; "COMPUTER assisted language instruction"; "ENGLISH language education"; "ERROR analysis in foreign language education"; "FLUENCY (Language learning)"; "IMMERSION method (Language teaching)"; "INTERLANGUAGE (Language learning)"; "IRISH Gaelic language -- Study & teaching"; "ITALIAN language -- Study & teaching"; "LANGUAGE & languages -- Self-instruction"; "LANGUAGE ability"; "LANGUAGE ability testing"; "LANGUAGE transfer (Language learning)"; "MODERN languages -- Study & teaching"; "RHETORIC -- Study & teaching"; "SIGN language -- Study & teaching"; "SPEECH education"; "STRATEGY Inventory for Language Learning"; "STUDY & teaching of the Greek language"; "TELEVISION in foreign language education"

Termau chwilio Cymraeg

Ysgol; dosbarth; Ymestyn ymgysylltu / “Ymestyn ymgysylltu”; dysgu; iaith; ieithyddol; fel Ail Iaith / “fel Ail Iaith”; ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill / “ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill”; gofal; plant agored i niwed / “plant agored i niwed”; plant mewn angen / “plant mewn angen”; plenty; Tai chymorth / “tai chymorth”; tai lle ceir cefnogaeth / “tai lle ceir cefnogaeth”; maethu; mabwysiadu; plant mewn perygl / “plant mewn perygl”; ffoadur; ceisiwr lloches / “ceisiwr lloches”; mudwr; mewnfudwr; pobl wedi'u dadleoli / “pobl wedi'u adleoli”; ymfudwr; sipsi; sipsiwn; teithiwr; brecwast; tlodi; gofalwr ifanc / “gofalwr ifanc”; gofalydd ifanc / “gofalydd ifanc”

**Atodiad B: Cronfeydd data a llenyddiaeth lwyd a chwiliwyd**

American Association of Caregiving Youth; BASE (Bielefeld Academic Search Engine); Mynegai Addysg Prydain; Sefydliad Polisi Addysg; Educational Resources Information Center (ERIC) Estyn; EThOS; Eurocarers; Friends, Families and Travellers; Google Scholar; GOV.UK; Gwerddon; Little Dreamers; Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon; Parentkind; Teacher Reference Center; The Curriculum Journal; Traveller Movement; Voices From Care Cymru; Cylchgrawn Addysg Cymru; Catalog Llyfrgell Llywodraeth Cymru; Who Cares? Yr Alban; Young Carers in Schools

**Atodiad C: Canllaw cyfweld**

1. Cyflwyniad a'r broses gydsynio
2. Newidiadau i'r flwyddyn ysgol
    a. Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r calendr ysgol yn eich awdurdod lleol?
        i. CWESTIWN DILYNOL: Sut y penderfynwyd pa wyliau hanner tymor i'w newid?
    b. A yw gwyliau eraill wedi'u cwtogi er mwyn darparu ar gyfer y newidiadau hyn?
3. Trosolwg o'r broses
    a. A allech chi roi trosolwg cam wrth gam byr o'r broses o roi'r newidiadau hyn ar waith?
        i. AWGRYM: Pa randdeiliaid yr oedd angen iddyn nhw fod yn rhan o'r broses hon? Cefnogaeth?
        ii. AWGRYM: Amserlen newidiadau
        iii. AWGRYM: A oedd hyn yn bosibl o dan y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau presennol?
4. Rhesymau dros wneud newidiadau
    a. Beth oedd y rhesymeg dros y newidiadau? A oedd yn deillio o fater penodol?
        i. AWGRYM: Colli'r hyn a ddysgwyd, anfantais, ac ati.
5. Y broses ymgynghori
    a. Pa mor hir y bu'r ymgynghoriad ar y newidiadau hyn ar agor?
    b. Pa fath o lefelau ymgysylltu a welwyd?
        i. AWGRYM: Faint o ymatebion a gafwyd?
    c. CWESTIWN DILYNOL: A wnaethoch chi ganolbwyntio ar rieni / y rhai mewn addysg, neu a wnaethoch chi ymgysylltu â sectorau eraill (er enghraifft twristiaeth / gofal plant?
    d. Sut y cafodd hyn ei hysbysebu / pa ohebiaeth a ddosbarthwyd?
    e. Unrhyw adborth amlwg / mynych gan randdeiliaid?
    f. A fu unrhyw wrthwynebiad / A gawsoch chi unrhyw adborth uniongyrchol am y newidiadau arfaethedig?
6. Gwerthusiad ôl-weithredol
    a. A fu unrhyw waith gwerthuso ar ôl i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith?

        i. Os naddo, a oes unrhyw gynlluniau i wneud hynny?
   b. Pa wersi a ddysgwyd wrth roi'r newidiadau hyn ar waith?
   c. A yw'r newidiadau hyn wedi cael eu hystyried yn llwyddiant?
        i. CWESTIWN DILYNOL: Sut y byddech chi'n diffinio llwyddiant yn yr achos hwn?
7. Y camau nesaf
   a. A oes unrhyw newidiadau eraill mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol yn cael eu cynnig / ystyried?
   b. A fydd ymgyngoriadau pellach yn cael eu cynnal i ganfod a yw rhanddeiliaid yn dal i fod yn awyddus i weld y newidiadau (os na chyfeiriwyd at hynny yn yr adran ôl-weithredol.
   c. A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei nodi ynglŷn â'r pwnc hwn sy'n bwysig, yn eich barn chi, ond nad ydyn ni wedi gofyn amdano?
8. Diwedd y cyfweliad